CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CALON TÂN

RHIFYN Y GWANWYN 2026

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

## EIN PRIF SWYDDOG TÂN CYNTAF

TUDALEN 4



## DATHLU 30 MLYNEDD O WASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

TUDALEN 4

## SEREMONI CWBLHAU HYFFORDDIANT AR ALWAD HWLFFORDD

TUDALEN 3

## MAE EIN GORSAFOEDD YN HAFANAU DIOGEL

TUDALEN 14

## GWOBRAU GWASANAETH HIR AC YMDDYGIAD DA

TUDALEN 8

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| SEREMONI CWBLHAU HYFFORDDIANT AR ALWAD HWLFFORDD | 3 |
| DATHLIADAU PEN-BLWYDD 30 MLYNEDD | 4 |
| CYNHADLEDD AR-ALWAD | 6 |
| GWOBRAU GWASANAETH HIR AC YMDDYGIAD DA | 8 |
| CYFATHREBU'R RHANBARTHAU | 10 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASOL | 13 |
| #DOETHIDANAUGWYLLT | 14 |
| AIL LAWNSIO HAFANAU DIOGEL | 16 |
| CYNHADLEDD TUEDDIADAU TROSEDDAU SY'N GYSYLLTIEDIG AG IEUENCTID 2026 | 17 |
| GOLCHI CEIR A DIGWYDDIADAU | 18 |
| SWYDDI | 20 |


**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

**Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:**

**2030**
Galwadau i'r Ganolfan Rheoli

**1086**
Digwyddiadau a fynychwyd

**49**
O danau mewn adeiladau

**425**
O alwadau ffug

**10**
Anifail wedi'u Hachub

**5**
O ddigwyddiadau achub dwr

**48**
O wrthdrawiadau traffig ffyrdd

**63**
O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill










# SEREMONI CWBLHAU HYFFORDDIANT AR ALWAD HWLFFORDD

**Ddydd Llun, 23 Mawrth cynhaliwyd Seremoni Cwblhau Hyfforddiant yng Ngorsaf Dân Hwlffordd i ddathlu cyflawniadau'r grŵp diweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad.**

Daeth y seremoni, a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Hwlffordd, â theulu, ffrindiau a phersonél y Gwasanaeth Tân ynghyd i ddathlu cyflawniadau anhygoel 9 unigolyn sydd wedi cwblhau wythnosau o hyfforddiant trylwyr ac sydd bellach yn dechrau eu gyrfaoedd yn gwasanaethu cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru fel Diffoddwyr Tân Ar Alwad.

Perfformiodd y recriwtiaid newydd gyfres o Arddangosfeydd Ymarferiad Iard yn tynnu sylw at y sgiliau ymateb brys y mae pob aelod newydd o'r criw wedi'u datblygu, ac yna Cyflwynwyd Tystysgrifau.

Maent bellach wedi'u paratoi a'u cyfarparu'n llawn i ddechrau eu gyrfaoedd Ar Alwad yn eu Gorsafoedd Tân lleol, lle bydd pob un ohonynt yn chwarae rhan hanfodol mewn ymateb i argyfyngau a gwaith ataliol i gadw eu cymunedau'n ddiogel.

Llongyfarchiadau a chroeso i'r tîm!

# DATHLU 30 MLYNEDD O WASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU.

**Ers ei ffurfio ym 1996, mae'r Gwasanaeth wedi tyfu i fod yn un o'r sefydliadau tân ac achub mwyaf yn y DU, gan gwmpasu tirwedd eang ac amrywiol sy'n cynnwys cymunedau gwledig, trefi arfordirol, a chanolfannau trefol prysur.**

Dros y blynyddoedd, mae ein timau wedi ymateb i filoedd o argyfyngau, wedi hyrwyddo addysg diogelwch tân, ac wedi addasu'n barhaus i heriau newydd gyda phroffesiynoldeb a gwydnwch.

O 1 Ebrill 2026, a thrwy gydol gweddill y flwyddyn, byddwn yn dathlu'r pen-blwydd arwyddocaol hwn. Mae'n cynnig cyfle nid yn unig i fyfyrio ar gyflawniadau'r Gwasanaeth, ond hefyd i gydnabod y bobl sydd wedi llunio ei daith. Mae diffoddwyr tân, staff rheoli, timau cymorth, a gwirfoddolwyr i gyd wedi chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn ein cymunedau, yn aml mewn amgylchiadau heriol ac anrhagweladwy.

Wrth i ni nodi tair degawd o wasanaeth, mae'r pen-blwydd hwn yn sefyll fel tystiolaeth i'n hymrwymiad - ac yn foment i edrych ymlaen: cryfhau partneriaethau cymunedol, croesawi arloesedd, a pharhau â'n cenhadaeth i gadw Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel am genedlaethau i ddod.

**DARLLEN MWY**

**Os oes gennych unrhyw straeon, atgofion, neu luniau o'r 30 mlynedd diwethaf, byddem wrth ein bodd yn eu gweld a'u rhannu fel rhan o'n dathliadau.**

**Anfonwch nhw at: pressofficer@mawwfire.gov.uk**






# PRIF SWYDDOG TÂN CYNTAF Y GWASANAETH YN DYCHWELYD I BENCADLYS Y GWASANAETH

**Ddydd Iau, Ebrill 2ail, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn falch o groesawu ei Brif Swyddog Tân cyntaf, Ronnie King OBE QFSM, i'w Bencadlys yng Nghaerfyrddin.**

Yn ystod ei ymweliad, gwnaeth Mr King cwrdd â Phrif Swyddog Tân presennol y Gwasanaeth, Craig Flannery, y ddau ohonynt yn wreiddiol o Swydd Efrog, i drafod y datblygiadau o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub, uchafbwyntiau eu gyrfaoedd ac arweinyddiaeth.

Mae Mr King wedi cael gyrfa nodedig, a ddechreuodd ym Mrigâd Dân Swydd Efrog ym 1961, cyn iddo symud ymlaen i wasanaethu yn Llundain, Fife, a'r Swyddfa Gartref, cyn dod yn Brif Swyddog Tân cyntaf GTACGC a ffurfiwyd yn Ebrill 1996.






ERTHYGL LLAWN





CYNHADLEDD AR-ALWAD

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN CYNNAL TRYDYDD GYNHADLEDD DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD FLYNYDDOL

**Ddydd Sul, Ebrill 26ain, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei trydedd Gynhadledd Diffoddwyr Tân Ar Alwad, ym Mhafiliwn yr Aelodau ar Faes Sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt.**

Nod y gynhadledd oedd tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn GTACGC a thu hwnt i wella'r System Dyletswydd Ar Alwad, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau'r Gwasanaeth, megis y **Cynllun Rheoli Risg Cymunedol**, a thrafod argymhellion a phryderon ynghylch gwella recriwtio a chadw Diffoddwyr Tân Ar Alwad o fewn GTACGC.

Croesawodd y gynhadledd siaradwyr allanol, gan gynnwys Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn a Swyddog Arweiniol Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ar gyfer Ar Alwad, Steve Healey KFSM a Claire McMinn o Elusen y Diffoddwyr Tân.

Mae llwyddiannau diweddar wrth drawsnewid System Dyletswydd Ar Alwad GTACGC a recriwtio a chadw Diffoddwyr Tân yn cynnwys **dyfarnu Gwobr Prosiect y Flwyddyn i Raglen Gwella Ar Alwad y Gwasanaeth yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Tân ac Argyfwng** a chynnydd o 3% yn argaeledd Ar Alwad.




TÂN
FIRE


Cynhadledd
Ar Alwad
On-Call
Conference
2026




0800 169 1234
GYRRWCH
YN DDIOGEL
5 ANGHEUOL


BBC
CYMRU
WALES

# GWOBRAU GWASANAETH HIR AC YMDDYGIAD DA

**Nos Iau, Ebrill 16eg, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) Seremoni Gwobrau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da yn The Barn at Brynich yn Aberhonddu.**

Roedd y noson yn gyfle arbennig i ddathlu a chydnabod 30 ac 20 mlynedd o wasanaeth a gwblhawyd gan bersonél gweithredol a chymorth. Wedi'i gyflwyno gan Brif Swyddog Tân GTACGC, Craig Flannery, roedd y seremoni'n cynnwys perfformiad gan Gôr Meibion Aberhonddu, cyflwyno medalau a gwobrau i bersonél GTACGC, a bwffe.

Yn cyhoeddi pob derbynnydd yn ystod y noson oedd Pennaeth Rhanbarth y Gogledd GTACGC, Y Rheolwr Grŵp Phil Morris, Dirprwy Bennaeth Rhanbarth y De, Y Rheolwr Gorsaf Richie Vaughan-Williams a Dirprwy Bennaeth Rhanbarth y Gorllewin, Y Rheolwr Gorsaf Emyr Jones. Yn cyflwyno'r medalau, y bathodynnau coffaol a'r gwobrau i bob derbynnydd oedd Dirprwy Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi Phowys, Mr David Meyer.

Hefyd yn bresennol roedd Dirprwy Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi Dyfed, Mr Rowland Rees-Evans DL, Uchel Siryf Powys, Mr William Watkins, Uchel Siryf Dyfed, Mr Andrew Phillips a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Mr John Davies.

## 30 Mlynedd o Wasanaeth

Yn cael eu cydnabod am eu 30 mlynedd o wasanaeth ymroddedig i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru oedd:

Y Rheolwr Grŵp Ashley Hopkins, Y Rheolwr Gwylfa David Evans, Y Rheolwr Gorsaf Aled Lewis a'r Rheolwr Criw James Jones

## 20 Mlynedd o Wasanaeth

Yn cael eu cydnabod am eu 20 mlynedd o wasanaeth ymroddedig i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru oedd:

Swyddog Ymateb Canolog Nerys Thomas, Swyddog Diogelwch Cymunedol Gary Davies, Y Rheolwr Gwylfa Brian Woodbridge, Y Rheolwr Criw Richard Wildee, Y Rheolwr Criw Christopher Eldred, Y Rheolwr Criw Ceri Roberts, Y Rheolwr Gwylfa Stuart Ingram, Y Rheolwr Criw Robert Beech, Y Diffoddwr Tân Douglas Preece, Y Rheolwr Gwylfa Craig Jenkins, Y Rheolwr Criw Nigel Worvell, Y Rheolwr Criw Simon Bray a'r Diffoddwr Tân David Roberts

**Llongyfarchiadau i'r holl dderbynnydd am eu hymroddiad a'u gwasanaeth rhagorol, gan gynnwys y rhai sy'n nodi 20 a 30 mlynedd o wasanaeth nad oeddent yn gallu mynychu'r seremoni.**




30
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




20 Mlynedd o Wasanaeth




nd West Wales
nd Rescue Service

# CRIWIAU TÂN YN RHOI EU SGILIAU AR BRAWF MEWN YMARFERIAD HYFFORDDI REALISTIG

**Yn ddiweddar, cymerodd diffoddwyr tân o Orsafoedd Tân Castellnewydd Emlyn a Llandysul ran mewn ymarferiad hyfforddi ar y cyd oddi ar y safle a gynlluniwyd i hogi eu sgiliau a chryfhau gwaith tîm.**

Nos Lun, 13 Ebrill, cymerodd criwiau o'r ddwy orsaf ran mewn ymarferiad chwilio ac achub gydag offer anadlu (BA) yn SERB Pharmaceuticals yn Ffostrasol, Llandysul. Roedd y senario yn efelychu tân yn yr adeilad, gyda nifer o bobl y tu mewn, gan greu amgylchedd hyfforddi heriol a realistig.

Rhoddodd yr ymarferiad gyfle i'r ddau griw ymarfer gweithdrefnau gweithredol hanfodol wrth wisgo cit BA a gweithio mewn adeilad llawn mwg. Trwy hyfforddi mewn lleoliad diwydiannol go iawn, roedd y criwiau'n gallu ennill profiad ymarferol gwerthfawr, gan eu helpu i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol mewn sefyllfaoedd tebyg i ddigwyddiadau go iawn.

Diolch yn arbennig i SERB Pharmaceuticals am eu cydweithrediad rhagorol, wrth baratoi ar gyfer yr ymarferiad ac am eu cefnogaeth ar y noson. Roedd eu parodrwydd i ganiatáu i'n criwiau ddefnyddio eu hadeiladau yn allweddol wrth wneud yr hyfforddiant yn realistig ac yn llwyddiannus.

Ar hyn o bryd mae Gorsafoedd Tân Castellnewydd Emlyn a Llandysul yn recriwtio Diffoddwyr Tân Ar Alwad. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwasanaethu eich cymuned ac ymuno â thîm lleol ymroddedig, cysylltwch â ni i ddarganfod mwy.

**Dywedodd y Rheolwr Gwylfa, Iwan Jones:**

"Roedd yr ymarferiad yn gyfle gwerthfawr i griwiau hyfforddi gyda'i gilydd, cryfhau ein cydlyniad gweithredol a nodi pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol."











# GARDD GYMUNEDOL YN AGOR YN SWYDDOGOL YNG NGORSAF DÂN Y TRALLWNG

**Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWFRS) yn falch iawn i agoryr ardd gymunedol newydd yn swyddogol yng Ngorsaf Dân y Trallwng ym mis Chwefror.**

Cafodd yr ardd ei dadorchuddio'n ffurfiol ddydd Iau, 12 Chwefror, yn ystod bore coffi cymunedol a gynhaliwyd yn yr orsaf gyda nifer o bobl yn bresennol.  Gwahoddwyd trigolion lleol i ymuno â Diffoddwyr Tân y Trallwng am ddiodydd poeth a chacennau cartref, gan greu awyrgylch cynnes a chroesawgar i ddathlu'r achlysur.

Bydd yr ardd yn encil heddychlon i bersonél GTACGC a thrigolion lleol, gan gynnig amgylchedd tawel i ymlacio, myfyrio a mwynhau'r awyr agored.  Y gobaith yw y bydd y man yn parhau i ddatblygu trwy gyfranogiad parhaus y gymuned a gweithgareddau plannu tymhorol.

Mae Gardd Gymunedol Gorsaf Dân y Trallwng wedi cael cefnogaeth garedig gan **Raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru** a **Cadwch Gymru'n Daclus.**

**Y DE**

# CWRS RHEOLI DIGWYDDIADAU YM MHORT TALBOT

**Ddydd Llun, 27 Mawrth, llwyddodd saith ymgeisydd i gwblhau Cwrs Lefel 1 Rheoli Digwyddiadau a gyflwynwyd gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau (ICS) yng Ngorsaf Dân Port Talbot.**

Dyma raglen ddwys bum diwrnod o hyd sydd wedi'i dylunio i baratoi diffoddwyr tân i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am beiriannau'r ochr gweithredol. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau ddiwrnod o senarios digwyddiadau. Er mwyn cwblhau'r cymhwyster Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder (SFJ), roedd yn rhaid i bob ymgeisydd gymryd rheolaeth ar ystod o ddigwyddiadau gweithredol realistig, gan ddangos sgiliau gwneud penderfyniadau, arwain a rheoli digonol. Llwyddodd yr ymgeiswyr fodloni'r meini prawf, gan gadarnhau eu cymhwysedd i wasanaethu fel swyddogion â gofal mewn digwyddiadau gweithredol.

Daeth cydweithwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i helpu gyda chyflwyniad y cwrs hefyd, gan arsylwi ar yr asesiadau a chefnogi'r gwaith o gynnal y senarios. Roedd eu cyfraniad yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac yn cryfhau'r cydweithrediad rhwng y gwasanaethau. Hefyd, trwy rannu'r amgylchedd dysgu gallai bawb a oedd yn cymryd rhan gael adborth adeiladol a chyfleoedd datblygu proffesiynol.

Hoffai'r Tîm Rheoli Digwyddiadau longyfarch yr holl ymgeiswyr yn ogystal â diolch yn fawr iawn i [Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru] am eu cyfraniad.

**ERTHYGL LLAWN**








# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI
ROUNDERS

CLWB CRICED
CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO
BOWLS CLUB

CLWB BEICIO
CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY
FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED
FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF
GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD
FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI
RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON
TRIATHLON CLUB

CLWB FFITRWYDD
FITNESS CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau. Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

# MAE BWRDD TANAU GWYLLT CYMRU YN EICH ANNOG I FOD YN #DOETHIDANAUGWYLLT Y GWANWYN A'R HAF HWN.

**Wrth i'r tymhorau newid a thywydd cynhesach ddechrau cyrraedd, mae'n gyfle perffaith i wneud y gorau o'r awyr agored. P'un a yw hynny'n golygu cynllunio gwyliau gartref, mynd ar daith wersylla i'r teulu, neu archwilio harddwch cefn gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Mae'r gwanwyn a'r haf yn dod â risg uwch o danau gwyllt. Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog pawb i fod yn #DoethiDanauGwyllt trwy ddilyn ein cyngor diogelwch syml, ymarferol. Gall ychydig bach o ofal ychwanegol wneud gwahaniaeth enfawr, gan helpu i amddiffyn ein cefn gwlad syfrdanol a chadw cymunedau'n ddiogel rhag effaith ddinistriol tanau gwyllt.

**Yn 2025, ymatebodd y gwasanaethau tân ledled Cymru i 3,474 o ddigwyddiadau tanau glaswellt - cynnydd o 275% ar y flwyddyn flaenorol.**

**Yn fwyaf pryderus: Cododd tanau glaswellt bwriadol i 2,357 o ddigwyddiadau, cynnydd o 1,694 o danau (i fyny 256%).**

**Mae hyn yn cynrychioli'r nifer uchaf o danau glaswellt ers 2018, gan dynnu sylw at duedd bryderus iawn sy'n peryglu pobl, eiddo, bywyd gwyllt ac adnoddau cymunedol hanfodol.**



Mae’r Bwrdd Tanau Gwyllt yn awyddus i weithio gyda’n cymunedau er mwyn creu tirwedd sy’n iachach ac yn fwy gwydn, a hynny trwy wella bioamrywiaeth ar gyfer ein dyfodol.

Nod ein hymgyrch #DoethiDanauGwyllt yw addysgu unigolion am yr arferion gorau o ran osgoi ac atal tanau gwyllt yng Nghymru.

Trwy weithio gyda’n cymunedau i rannu gwybodaeth, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio gwella dealltwriaeth o’r hyn y gall y Gwasanaeth ei wneud i atal tanau damweiniol rhag digwydd ac i gyfyngu ar y difrod y gallant ei wneud i’r amgylchedd.

Gallwch ddysgu mwy am #DoethiDanauGwyllt drwy fynd i #DoethiDanauGwyllt

# GYDA’N GILYDD, GALLWN NI HELPU I ATAL TANAU GLASWELLT AC AMDDIFFYN EIN CEFN GWLAD.



# HAFANAU DIOGEL WEDI'U HAIL-LANSIO AR DRAWS CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

HAFAN DDIOGEL
SAFE HAVEN

**Mae pob gorsaf ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi'u dynodi'n Hafanau Diogel, gan ddarparu man diogel i aelodau'r cyhoedd sy'n teimlo mewn perygl, dan fygythiad neu wedi'u dychryn.**

Gall unrhyw un sy'n teimlo eu bod mewn perygl uniongyrchol neu'n agored i niwed fynd i'w gorsaf agosaf, lle mae ein staff wedi'u hyfforddi ac yn barod i roi cymorth.

**Dywedodd yr Arweinydd Diogelu, Jay Crouch:**
*"Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r Hafanau Diogel yn un o'n 58 o Orsafoedd Tân os ydyn nhw'n teimlo mewn perygl mewn unrhyw sefyllfa."*


Mae staff GTACGC yma i gefnogi unigolion a chymunedau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner, gan gynnwys Byw Heb Ofn, Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu De Cymru, er mwyn sicrhau ymateb cyflym a phriodol pan fo angen





**MWY O WYBODAETH**









# CYNHADLEDD TUEDDIADAU TROSEDDAU SY'N GYSYLLTIEDIG AG IEUENCTID 2026

**Ddydd Mawrth, 10 Chwefror, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth (GTACGC) a Gorllewin Cymru y Gynhadledd Tueddiadau Troseddau sy'n Gysylltiedig ag Ieuenctid ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn Stadiwm Swansea. com ochr yn ochr ag asiantaethau partner o bob rhan o'r rhanbarth.**

Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar dueddiadau troseddau sy'n gysylltiedig ag ieuenctid a dulliau cydweithredol o atal a diogelu.

Agorodd y Prif Uwch-arolygydd Steve Jones o Heddlu De Cymru y gynhadledd, gan rannu data a dealltwriaeth am strategaethau atal. Daeth cyfraniadau drwy gydol y dydd gan Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Uned Ddiogel Hillside, Cyngor Caerdydd a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan ymdrin â chanllawiau mewn ysgolion, atal trais, a dealltwriaeth go iawn am brofiadau pobl ifanc.

Tynnodd ein Tîm Diogelwch Cymunedol sylw at fentrau gan gynnwys y Rhaglen Cadetiaid a Phrosiect Ffenics, sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â phobl ifanc ar draws ein cymunedau.

Wrth gloi'r gynhadledd, atgyfnerthodd y Prif Swyddog Tân, Craig Flannery, bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cymunedau mwy diogel a chryfach ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

Hoffem ddiolch i bawb a oedd yn bresennol ac am gyfrannu at lwyddiant y diwrnod.




**LLWYDDIANT GOLCHI CEIR**

# PEDAIR GORSAF DÂN YN CASGLU £7,279 AR GYFER ELUSEN

**Daeth pedair Gorsaf Dân at ei gilydd ddydd Sadwrn, 28 Mawrth, i gynnal digwyddiadau golchi ceir ar yr un pryd—gan godi £7,279.65 ar gyfer dau achos sy'n darparu cymorth hanfodol i deuluoedd tân ac achub ac i'r rhai sy'n wynebu profedigaeth annisgwyl.**

Mae Gorsafoedd Tân Llanandras a Threfyclo Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), ynghyd â Gorsafoedd Tân Ceintun a Kingsland Gwasanaeth Tân ac Achub Henffordd a Chaerwrangon (HWFRS), wedi cynnal sesiynau golchi ceir cymunedol i gefnogi dwy elusen bwysig.

**Nod y digwyddiadau oedd casglu arian ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân a 2wish, gan helpu i sicrhau bod cymorth ymarferol, emosiynol a lles ar gael pan fo ei angen fwyaf.**

- Mae Elusen y Diffoddwyr Tân yn cynnig cymorth gydol oes i les meddyliol, corfforol a chymdeithasol Diffoddwyr Tân sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol, eu teuluoedd, a phersonél eraill y Gwasanaeth Tân ac Achub. Cafodd yr Elusen ei sefydlu yn 1943 ac mae'n cael ei hariannu trwy roddion a digwyddiadau codi arian gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'n adnodd hanfodol i'r rhai sy'n treulio eu bywydau yn amddiffyn eraill.

- Mae 2wish yn gweithio i sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan farwolaeth sydyn ac annisgwyl plentyn neu oedolyn ifanc yn derbyn y cymorth profedigaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Mae'r gefnogaeth maen nhw'n ei ddarparu yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac wedi'i theilwra i anghenion pob unigolyn.

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth draw a chefnogi'r pedwar digwyddiad. Rhyngddynt, casglodd y pedair Gorsaf **£7,279.65** – canlyniad gwych sy'n adlewyrchu haelioni pawb a ddaeth, a roddodd neu a helpodd i hysbysebu.

Rhannwyd yr holl arian 50/50 rhwng Elusen y Diffoddwyr Tân a 2wish, a hynny er cof am Elsa Layton-Jones ac Ivy Oldershaw.

Bydd eich cefnogaeth yn ariannu gofal parhaus, cwnsela a chymorth ymarferol i bobl sydd wir ei angen – diolch i bawb am helpu i droi digwyddiad cymunedol yn effaith elusennol ystyrlon.

# DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!







**Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb**

9 Mai – Golchi Ceri Llanfyllin

16 Mai – Golchi Ceir Aberystwyth

16 Mai – Digwyddiad Diogelwch Ffyrdd Angheuol 5

16 Mai – Pride Abertawe

23 Mai – Golchi Ceir Castell Newydd Emlyn

31 Mai – Golchi Ceir Hwlffordd

6 Mehefin – Her Diffoddwyr Tân Cymru

19 Gorffennaf – Golchi Ceri Aberdaugleddau

20 – 23 Gorffennaf – Sioe Frenhinol Cymru

29 Gorffennaf – Diwrnod Agored Doc Penfro

1st – 8th August - National Eisteddfod of Wales

19th – 20th August – Pembrokeshire County Show

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafoedd.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

**Peidiwch â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol neu ewch i'n Tudalen Digwyddiadau, a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.**

## Dilynwch ni ar



# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**GWELD Y SWYDDI GWAG CYFREDOL >**









# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk